# GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU – CYFRES IONAWR 2026

## ADOLYGIADAU O'R MARCIO A'R CYMEDROLI (ROMM)

| GWASANAETH | DISGRIFIAD | COST/UNED | DYDDIAD CAU CYFLWYNO CEISIADAU | CYHOEDDI CANLYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth 1 | Ail-wiriad clercyddol | £11 | 9 Ebrill | O fewn 10 diwrnod calendr i wneud cais |
| Gwasanaeth 2 | Ail-wiriad clercyddol, adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau a datganiad o'r marciau fesul uned/cydran ar gyfer ymgeisydd unigol. | £43 | 9 Ebrill | O fewn 20 diwrnod calendr i wneud cais |
| Gwasanaeth 3 | Adolygu'r cymedroli ar ôl y canlyniadau. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol. Adolygwyd y ffi a godir fesul ymgeisydd (hyd at uchafswm o 20 ymgeisydd) | £33.60 | 9 Ebrill | 35 diwrnod calendr i dderbyn y sampl gwreiddiol |

***Rhaid i ganolfannau gael cydsyniad ysgrifenedig gan ymgeiswyr ar gyfer ail-wiriad clercyddol ac adolygiad o'r marcio, oherwydd gallai marciau a graddau ymgeiswyr ostwng. Ni ellir canslo cais am adolygiad o'r marcio, o dan unrhyw amgylchiadau, unwaith y bydd CBAC wedi cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r marcio. Nid oes angen cydsyniad ysgrifenedig yr ymgeisydd ar gyfer adolygiad o'r cymedroli. Gellir gostwng marciau'r ymgeisydd ond ni fydd ei raddau pwnc a gyhoeddwyd yn gostwng yn y gyfres dan sylw. Gellir cario marc is ymlaen i ardystiad yn y dyfodol.***

## Y DUDALEN MYNEDIAD AT SGRIPTIAU*

| GWASANAETH | DISGRIFIAD | COST/UNED | CYHOEDDIR ERBYN |
|---|---|---|---|
| Mynediad at Sgriptiau | Mynediad rhad ac am ddim at sgriptiau trwy'r dudalen mynediad at sgriptiau am 6 mis ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. | Rhad ac am ddim | Amh. |

*Rhaid i ganolfannau gael cydsyniad ysgrifenedig i weld sgriptiau ymgeiswyr.

## CYFLWYNO CEISIADAU

a) Rhaid cyflwyno pob cais ar ran yr ymgeiswyr mewnol gan Bennaeth y Ganolfan neu aelod awdurdodedig o staff y ganolfan.

b) Y ganolfan ddylai ymgymryd â'r holl ohebiaeth gyda CBAC ar ran ymgeiswyr mewnol, nid yr ymgeiswyr na'u rhieni/gwarcheidwaid.

c) Rhaid defnyddio'r cyfleuster ar-lein ar y Porth i wneud pob cais.

ch) Os bydd angen y gwasanaeth yn Gymraeg, dylid rhoi tic yn y blwch priodol.

d) Rhaid anfon gwaith cwrs sydd ym meddiant y ganolfan i'r cyfeiriad canlynol: CBAC, Uned A16/A17, Ffordd Gwaelod y Garth, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5XF.

dd) Dangoswch yn gwbl glir yr uned/cydran rydych yn gwneud y cais amdani.

e) Fe'ch cynghorir i gyflwyno ceisiadau am bob uned/cydran mewn cymhwyster ar yr un pryd â'r cais cychwynnol. Noder, unwaith y bydd canlyniad ROMM wedi'i gyhoeddi, ni allwn newid na thynnu'r canlyniad hwn yn ôl.

f) Anogir ymgeiswyr preifat i ofyn am gyngor gan eu canolfan gofrestru ac i wneud cais drwyddyn nhw. Gallant gyflwyno cais yn uniongyrchol yn ogystal drwy anfon e-bost at gac@cbac.co.uk gan nodi enw a rhif yr ymgeisydd ac enw a rhif y ganolfan mewn unrhyw ohebiaeth.

**CYNLLUNIAU MARCIO** - Bydd cynlluniau marcio ar gael ar y Porth.

**HYSBYSIAD I GANOLFANNAU** - Rhaid i CBAC gadw gwaith yr holl ymgeiswyr y cyflwynwyd cais am adolygiad o'r marcio neu gymedroli ar eu rhan am ddim llai na 12 mis ar ôl eu hysbysu o ganlyniad yr adolygiad.

## Ni fydd CBAC yn codi ffi o dan yr amgylchiadau canlynol

1. Lle mae adolygiad o farcio yn arwain at newid gradd uned.
2. Lle mae adolygiad o farcio yn arwain at newid gradd y cymhwyster. (Ni chodir ffi am unedau cysylltiedig yn yr adolygiad ychwaith).
3. Lle mae adolygiad o gymedroli yn arwain at adfer marciau'r ganolfan.
4. Ar gyfer adolygiadau o farcio lle mae apêl ddilynol wedi'i chadarnhau.

## APELIADAU

| GWASANAETH | COST/UNED | DYDDIAD CAU CYFLWYNO CEISIADAU |
|---|---|---|
| Ymchwiliad rhagarweiniol | £125 | Rhaid cyflwyno cais am Apêl o fewn 30 diwrnod calendr i dderbyn llythyr canlyniad y ROMM gan CBAC. |
| Gwrandawiad yr Apêl | £210 | Rhaid cyflwyno cais am wrandawiad Apêl Cam 2 o fewn dwy wythnos galendr i dderbyn llythyr canlyniad apêl ymchwiliad Rhagarweiniol Cam 1. |

Ni chodir ffi os cadarnheir yr apêl.